

Annabel Lloyd  
Cadeirydd Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru  
Gyfan

14 Rhagfyr 2022

## **Rhieni biolegol sydd wedi bod mewn gofal**

Annwyl Annabel,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

Drwy gydol tymor yr hydref, rwyf i a fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor wedi bod yn cynnal ymweliadau ar hyd a lled Cymru i siarad â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, a'r staff sy'n gweithio gyda hwy. Holwyd y bobl ifanc a'r staff am eu profiadau a'r hyn y byddent yn hoffi ei newid yn y system ofal.

Barn rhai o'r rhieni sydd wedi bod mewn gofal ac y mae eu plentyn wedi'i gymryd o'u gofal, neu y mae perygl i'w plentyn gael ei gymryd o'u gofal, yw bod gwasanaethau cymdeithasol pobl yn rhagfarnu eu bod yn rhieni anaddas *oherwydd eu bod wedi bod mewn gofal*, yn hytrach nag oherwydd tystiolaeth bendant o niwed, neu niwed posibl, i'r plentyn. Er mai'r llys teulu sy'n gwneud y penderfyniad terfynol i gymryd y plentyn o'u gofal, rydym yn cydnabod bod canfyddiad ymhlith llawer o'r menywod ifanc y gwnaethom siarad â hwy bod eu statws fel 'rhywun sydd wedi gadael gofal' wedi arwain yn awtomatig at ganfyddiad negyddol o'u gallu eu hunain fel rhieni.

Rydym yn dal i gasglu tystiolaeth ac nid ydym, fel Pwyllgor, wedi dod i gasgliad am unrhyw ran o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed hyd yn hyn. Rydym hefyd wedi nodi'r dystiolaeth ysgrifenedig sydd wedi'i darparu'n wirfoddol gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Bwyllgor Deisebau'r Senedd mewn cysylltiad â chasgliad data ciplun o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn Abertawe erbyn mis Mawrth 2022.

Yn seiliedig ar y data a ddarparwyd gan Abertawe, ac i'n helpu i ystyried y mater hwn ymhellach, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech goladu a darparu data i ni sy'n nodi ar gyfer yr holl

awdurdodau lleol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2022 mewn cysylltiad â'r bobl ifanc sydd yn eu gofal neu sydd wedi gadael eu gofal ac y mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i gadw 'mewn cysylltiad â hwy':

- Cyfanswm y bobl ifanc sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol y mae dyletswyddau ar yr awdurdod lleol iddynt hyd at 21 neu 25 oed os yw'n gymwys
- Cyfanswm y bobl ifanc hyn sydd wedi bod mewn gofal ac sy'n rhieni eu hunain
- Cyfanswm y bobl ifanc hyn sydd wedi bod mewn gofal y cymerwyd un plentyn neu ragor o'u gofal neu y mae'n hysbys bod ganddynt blentyn ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Unrhyw wybodaeth arall am niferoedd/gyfraddau rhieni dros 21 oed sydd wedi bod mewn gofal yn eich ardal chi, ac unrhyw wybodaeth am blant a gymerwyd o'u gofal.

Byddwn hefyd yn falch o gael eich barn am y rheswm y mae rhai rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn teimlo bod rhagfarn yn eu herbyn fel rhieni addas oherwydd eu bod nhw eu hunain wedi bod mewn gofal, neu'ch barn am unrhyw beth arall a allai, yn eich barn chi, fod yn berthnasol i'n trafodaethau ynghylch y mater pwysig hwn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon erbyn dydd Mercher, 1 Chwefror 2023.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

